**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA-L/VG/0239/19

Penaethiaid y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Mawrth 2019

Annwyl Gadeiryddion,

Yn dilyn cyflwyno'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol), mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant sy'n dileu'r pŵer canlyniadol Harri'r VIII yn y Bil yng Nghymal 5 (3).

Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu pŵer gwneud rheoliadau a oedd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth sylfaenol. Byddai hyn yn cynnwys Mesur neu Ddeddf y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddwn wedi ysgrifennu i Lywodraeth y DU yn mynegi fy mhryderon am y pŵer gwneud rheoliadau hwn. Os derbynnir gwelliant y Llywodraeth ni fydd y Bil yn caniatáu mwyach i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio, diddymu neu ddirymu Deddfwriaeth Sylfaenol Gymreig. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol sy'n adlewyrchu'r pwysau a roddwyd ar Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r pŵer eithafol hwn.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno gwelliant sy'n mabwysiadu'r dull machludo mewn perthynas â'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymalau 2(1)a a 2(1)b fel bod modd eu harfer am gyfnod penodedig o bum mlynedd yn unig. Mae'r cymalau hyn yn angenrheidiol yn y tymor byr er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol yn sgil newid sydyn yn y gofal iechyd ar gyfer gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE pe byddai'r DU yn Ymadael â'r UE heb gytundeb oherwydd maent yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud darpariaeth unochrog. Croesewir y gwelliant hwn gan ei fod yn cyfyngu ar gwmpas y Bil. Gellid parhau i ddefnyddio'r Bil i roi effaith i gytundebau gofal iechyd y tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd hwn.

Nid wyf yn ystyried bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r gwelliannau hyn gan eu bod naill ai'n cyfyngu ar bwerau a bennwyd yn y memoranda presennol neu'n eu dileu. Nid ydynt yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyflwynwyd gwelliant pellach gan Lywodraeth y DU sy'n ymwneud ag adrodd ariannol mewn perthynas â thaliadau o dan gymal 1. Gan y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaeth gyfatebol mewn Bil y Cynulliad mewn perthynas â thalu am driniaeth dramor a awdurdodwyd ymlaen llaw a ariennir gan y GIG yng Nghymru, byddai'n ofynnol o dan amgylchiadau arferol cael Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall ar gyfer y ddarpariaeth hon. Nid oes digon o amser yn awr i baratoi a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o'r fath ond roeddwn am ddod â'r gwelliant hwn sydd i'w groesawu at sylw'r Aelodau.

Byddai'r gwelliannau hyn yn gwella'r Bil ymhellach, ac rwy'n dal i argymell cydsyniad ar gyfer y Bil drwy'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at bob Aelod Cynulliad er mwyn iddynt allu cyfeirio ato cyn y ddadl.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services